
*Rhif:* **5** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd* **Ynys Dinas**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM5:Ynys Dinas**



*Pen Dinas o Draeth Trefdraeth*



*Clogwyni ar Ben Dinas*



*Edrych tua'r gogledd ddwyrain o Ben Dinas (sylwch ar foroedd cynhyrfus y pentir)*



*Cwm-yr-Eglwys*

| Disgrifiad Cryno |
|---|
| Mae Ynys/Pen Dinas yn bentir nodedig, tebyg i siâp cefn morfil, sy'n rhannu Bae Trefdraeth oddi wrth Fae Abergwaun. Mae'n bentir o dywodfaen sydd wedi ei wahanu oddi wrth y prif dir gan gwm cul, isel gyda thraethau ar y naill ben a'r llall, sef Cwm yr Eglwys a Phwllgwaelod. Rhwng y traethau hyn, mae gan y pentir glogwyni serth gyda phorfa agored ar oledd am yn ôl tuag at y prif dir. |
| **Nodweddion Allweddol** |
| • Pentir nodedig, amlwg tebyg i siâp cefn morfil sy'n rhannu Bae Trefdraeth a Bae Abergwaun ac yn eu dal.<br>• Gwely bas y môr, o glymfaen, a cherhyntau yn arwain at ddŵr cynhyrfus a symudiadau uchel y tonnau o amgylch y pentir gyda dyfroedd mwy cysgodol i'r de, yn enwedig ym Mae Trefdraeth.<br>• 'Ynys' o dywodfaen wedi ei rhannu oddi wrth y prif dir gan sianel o ddŵr tawdd rhewlifol, sydd bellach yn gwm coediog, cul.<br>• Clogwyni creigiog, fertigol, uchel gyda llethrau serth iawn uwchlaw yn codi i bwynt uchel yn y gogledd, gyda llwyfandir ar oledd i'r de.<br>• Blaendraeth creigiog gyda thraethau bach ar bob pen i'r cwm.<br>• Caeau agored, mawr, syml ar yr ynys a chaeau llai gyda chloddiau ar y prif dir.<br>• Hen bentref pysgota bach yng Nghwm yr Eglwys gyda'i faes carafannau a Phwllgwaelod gyda'i dafarn a charafannau nawr yn cael eu defnyddio ar gyfer hamdden traeth a mynediad at y dŵr i gychod bach gan gynnwys caiacau ayb.<br>• Llwybr Arfordir Penfro o amgylch y pentir gyda golygfeydd panoramig o bwynt uchel tua gogledd y pentir.<br>• Defnyddir y dŵr i hwylio rhwng baeau ac ar y ffordd i fyny Bae Ceredigion ac ar gyfer caiacau a pheth pysgota, yn bennaf dal pysgod mewn potiau, ond mae cyflwr y môr yn cyfyngu ar hyn. |
| **Nodweddion Ffisegol** |
| Mae geomorffoleg nodedig Pen Dinas, sy'n debyg i siâp cefn morfil, yn codi i 142m UDO neu Ynys Dinas (107m UDO) ymlaen i'r prif dir yn cael ei lunio gan sianel dŵr tawdd rhewlifol Chwaternaidd (safle Adolygiad Cadwraeth Daearegol Cwm yr Eglwys (Dinas) a Gwaelod Esgyrn). Mae'r pentir yn cynnwys tywodfaen a charreg laid Ordoficaidd sy'n taro dwyrain-gorllewin. Mae cildraethau bas yn torri i mewn i'r arfordir creigiog serth gyda chreigiau rhydd wedi eu taflu hwnt ac yma ar hyd y traeth hefyd. Dominyddir yr ardal arfordirol o amgylch y pentir gan flaendraeth creigiog, agored (85%), sy'n pasio i fyny i mewn i arfordir creigiog uwchlaw'r Marc Penllanw. Mae cilfachau traeth tywodlyd yng Nghwm yr Eglwys a Phwllgwaelod yn gorwedd ar ddau ben cwm coediog nodedig y sianel dŵr tawdd rhewlifol Chwaternaidd sy'n 'rhannu'r' ynys oddi wrth y prif dir. Mae'r pentir yn agored i erydiad y gwynt a'r tonnau trwy symudiadau hydrolig, sgrafelliad ac athreuliad.<br><br>Mae gwaddod llawr y môr, o glymfaen sydd wedi ei raddio'n wael, yn gorchuddio tywodfaen a charreg laid, ac yn ymledu allan o amgylch y pentir ar oledd cymedrol (1-10°) o ddŵr bas (>30m). Mae'r môr yn agored i bwysau uchel gan y gwynt a'r tonnau ar yr ochr orllewinol ac mae gan y tonnau batrwm cynhyrfus. Mae cerhyntau llanwol wedi eu gosod i'r gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin, gyda drafftiau i mewn i'r baeau. Fe allai eger ffurfio oddi ar Ogledd Ddwyrain y pentir gyda llif llanwol i'r gorllewin allan o'r bae. Amrediad y llanw yw ~4.8m.<br><br>Mae yna lystyfiant ar y clogwyni mewn mannau gyda phrysg ac eithin a rhedyn ar y llethrau serth uwchlaw clogwyni diffwysol. Mae'r llethrau cefn sy'n wynebu'r de yn cynnwys porfa wedi ei gwella yn bennaf gyda ffensys ble mae'n edrych fel petai'r cloddiau wedi cael eu gwaredu ond gyda rhai cloddiau wedi eu torri'n isel. Mae coetir collddail, rhedyn a pheth cors yn gorwedd yn y dyffryn rhwng y traethau ac yn gysylltiedig a chyrsiau dŵr. Mae patrwm cae sydd wedi ei sefydlu'n well, ac ar raddfa lai, gyda chloddiau, tua'r tir o hyd. Mae cynefinoedd yn cynnwys |

glannau creigiog gyda phyllau glan môr, traethau tywodlyd, prysg, glaswelltir corsiog, clogwyni a llethrau morwrol a choetir collddail cymysg isel.

**Dylanwad diwylliannol**

Mae defnydd morol hanesyddol yn cynnwys pysgota, a gwelir enghraifft o hyd yn y cei yng Nghwm yr Eglwys ac yn yr un llongddrylliad ar ymyl yr ardal sydd agosaf at y môr, sef y Summertime, cwch pysgota. Mae Ynys Dinas yn gaeadle is-betryal, sy'n mesur 60m wrth 50m, ac mae ar y pentir yn edrych allan dros Gwm-yr-Eglwys, gyda mynedfa i'r gogledd. Mae yna olion adeilad petryalog wedi ei rannu'n adrannau llai. Mae Cwm yr Eglwys ei hun yn hen bentref pysgota. Mae yna heneb gofrestredig - PE 543 (Caer bentir Ynys Dinas): cymuned: Dinas Cross. Mae enw'r dafarn ym Mhwllgwaelod, ar yr arfordir sy'n wynebu'r gorllewin, sef 'Sailors Safety' yn adrodd ei hanes ei hun.

Mae yna draeth tywodlyd yng Nghwm yr Eglwys, ac mae'n gysylltiedig ag anheddiad bach a mynwent, a pharc carafannau bach sy'n swatio yn y cwm. Mae Pwllgwaelod yn draeth tywodlyd mwy agored sy'n wynebu'r gorllewin. Mae yno dafarn bach a rhai carafannau a thraeth sy'n safle poblogaidd i lansio caiacau sy'n archwilio'r traethlin creigiog. Mae yma lithrfa hefyd. Cysylltir y traethau gan lwybr sy'n galluogi'r rheiny sy'n dod yma ar eu gwyliau i ddewis mynd at y traeth mwyaf cysgodol. Mae carafannau ac anheddiad llinol tua'r tir ar y lonydd cul sy'n mynd at y morlin hwn.

Mae'r cilfachau a'r clogwyni garw yn boblogaidd ar gyfer caiacio. Mae cychod hwylio a chychod modur yn pasio'r pentir ar eu taith a morwyr lleol yn hwylio rhwng Baeau Abergwaun a Threfdraeth. Mae'r traeth yng Nghwm-yr-Eglwys yn boblogaidd ar gyfer nofio cysgodol ac mae yna lithrfa. Mae cerdded yr arfordir yn weithgaredd poblogaidd ar Lwybr Arfordir Sir Benfro gyda golygfeydd gwefreiddiol ar draws y bae tua'r dwyrain a'r gorllewin. Mae yna oleufa ar bwynt uchel Pen Dinas.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydau wedi eu gosod, dal cimwch a chrancod mewn potiau a'r posibilrwydd o fân-dreillio estyllod. Mae'r dyfroedd wrth droed y clogwyni yn boblogaidd ar gyfer dal pysgod mewn potiau.

**Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol**

Pentir mawr, garw, heb ei ddifetha gyda phroffil nodedig fel 'cefn morfil' wrth edrych o'r dwyrain neu'r gorllewin. Mae'n agored gyda gwead garw, onglog o glogwyni creigiog uchel a rhedyn ac mae’r traethau llai a mwy amrywiol a'r cwm yn cyferbynnu gyda thir fferm syml llechweddau deheuol yr 'ynys' sy’n gaeedig. Mae'r lliwiau'n dawel ond yn newid yn dymhorol oherwydd y cychod a'r ymwelwyr ar y traethau. Mae'r ardal hon yn amrywio o ymylon agored a bygythiol y clogwyni i amgylchedd mwy diogel a diniwed yr aneddiadau a'r traethau sy'n weddol gysgodol. Gellir arogleuo'r môr a'r gwymon ar y traethau. Mae'r pentir yn heddychlon iawn ar ddiwrnodau llonydd.

Mae yna olygfeydd panoramig dros y môr a'r prif dir ac ar hyd yr arfordir oddi ar lwybr yr arfordir, a golygfeydd eang dros Fae Trefdraeth ac ymhellach tua'r gorllewin at Fae Abergwaun.

Byddai'r môr yn teimlo'n arw ac yn anghyffyrddus ar adegau ac yn cael ei ddominyddu gan dirffurf y pentir.

**Buddion diwylliannol a gwasanaethau**

Mae’r ardal yn cyfrannu'n sylweddol at wasanaethau hamdden ar ffurf cerdded, hamdden forol a thraethau, at dreftadaeth naturiol ar ffurf y clogwyni garw a'r pentir amlwg gyda chynefinoedd naturiol amrywiol a golygfeydd gwych, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â'r ymdeimlad o ofod a gwylltineb ar y pentir sy'n cyferbynnu gyda'r traethau mwy caeedig a dyfnder amser hanesyddol yng Nghwm-yr-Eglwys.

## Rhesymau dros newid

**Crynodeb**

Erydiad arfordirol araf clogwyni creigiog gwydn. Mae Cynllun Rheoli'r Traethlin yn dweud na ddylid gwneud unrhyw beth o amgylch y pentir ond yn nodi bygythiad i forgloddiau ac adeiladau yng Nghwm-yr-Eglwyd gan argymell dal y llinell yma.

Mae awgrym bod ffiniau'r caeau/cloddiau yn cael eu colli a chynnydd ym maint y caeau yn erydu cymeriad nodedig y dirwedd ar Ynys Dinas er, efallai y bydd unrhyw newidiadau niweidiol pellach yn gostwng yn sylweddol dan berchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Dwysau defnydd hamdden a phwysau datblygiad ar gyfer llety gwyliau yn y cwm, y traethau a'r gefnfro.

Rhedyn yn dominyddu llystyfiant lled-naturiol arfordirol.

**Rhesymau allweddol dros newid**

| Rhinweddau Arbennig | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysblander yr Arfordir | | | | | | | |
| Ynysoedd | | | | | | | |
| Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | | | | | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Archeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| Mynediad i'r Parc | | | | | | | |
| Lle i Anadlu | | | | | | | |

**Allwedd**: Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig

## Sensitifeddau allweddol

Man uchel amlwg a llwyfandir y pentir, sydd ar ogwydd, yn fan ffocws ac yn weladwy iawn o sawl golygfa o'r môr a'r tir.

Cymeriad hanesyddol yr aneddiadau.

Sensitifrwydd tirwedd gwlypdir y cwm i newidiadau yn y drefn reoli.

Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.

Presenoldeb hamdden wedi ei sefydlu yn y traethau ac yn y cwm.

Datblygiad carafannau.

Ymestyn y dirwedd sy'n cael ei ffermio.